# Garddio a Hwyl!

# Cystadleuaeth Garddio
# 2021

## Yr Enillwyr

### Gardd flaen orau - **Mel a Steve Hill, Cymru**

Mae ein ardd flaen yn gweld hyfryd yn yn Gwanwyn gyda cennin Pedr gwyn ac oren, cennin Pedr melyn, tiwlipau goch ac felyn ac ambell tiwlipau porffor ar y cefn. Mae llwyn celyn ac llwyn bocs gyda ein cymdogion yn y cefndir.



Yn yr haf, mae cribau'r pannwr gyda llawer o blodau yn dechrau i tyfu gyda loosestrife porffor (bron â blodeuo hefyd) ar naill ochr a lafant, astilbe ac briallu ar llaill ochr. Mae alliums 'Pueple Sensation' yn mynd i hadau. Mae blodau Mihangel yn blodeuo yn dechrau'r hydref hefyd. Mae verbena 'Scentsation Cymysg' ac antirhinnums yn tyfu ond mae nhw yn bach iawn hyn o bryd. Mae llwyn spirea ar y chwith yn ogystal â llwyn cotoneaster (allan o'r llun). Mae gwenyn yn hoff ein ardd flaen.



*Gardd gefn orau* - Cydradd 1af **Jenny Fell, Cymru** a **Caroline Williams, Lloegr**

**Jenny Fell**

Beth mae fy ngardd yn ei olygu i mi? Chwys, temtasiwn, ffrindiau a Chymraeg! Gadewch i mi esbonio…

Chwys! Doedd dim gardd o gwbl pan symudais i mewn. Roedd yn llawn cerrig bach tua 5 modfedd o ddyfnder ac, O Mam Bach, roedd y gwaith yn galed iawn cael gwared arnyn nhw.

Temtasiwn! Er bod gen i gynllun a rhestr hir o blanhigion, coed a hadau ro'n i eisiau, do'n i ddim yn barod am y demtasiwn o'r meithrinfeydd. Na, mae bron yn amhosibl peidio â phrynu rhywbeth bob tro. Dw i fel plentyn mewn siop fferins!

Ffrindiau! Dw i wedi cwrdd â llawer o bobl newydd oherwydd fy niddordeb newydd. Mae garddwyr wrth eu bodd yn rhannu eu cynghorion, hadau, toriadau a mwy (fel arfer paned a chacen)!


Ac yn olaf ond nid lleiaf:
Cymraeg!! Pwy fasai wedi meddwl y faswn i'n ceisio siarad ac ysgrifennu am arddio yn Gymraeg? Wel, nid fi pan ddechreuais ar fy nhaith ddysgu Gymraeg. Ond beth allai fod yn well? Dw i wrth fy modd efo fy ngardd ac mae'n werth y byd i fi oherwydd ei bod wedi agor llawer o ddrysau newydd ac wedi rhoi ffrindiau newydd i mi.





## Caroline Williams

Doedd gen i ddim gardd cyn y pandemig, dim ond ychydig o botiau wedi hen farw. Fel pawb eraill, dechreuais i arddio'r llynedd achos roedd rhaid i ni aros adref. Erbyn yr hydref, roedd gen i gymaint o botiau y rhoddais i'r gwelyau a'r delltwaith. Eleni dw i'n tyfu bob fath o bob dim! Er ei bod hi'n ardd fach iawn (llai na 3.5mx3m), dw i'n tyfu cymysgedd o lysiau, perlysiau a blodau gwyllt.



Mae'n bwysig i mi fod yr ardd yn gwneud lles i'r byd naturiol felly dw i'n garddio'n organig a dw i ddim yn defnyddio mawn. Does gen i ddim lle am fin compost felly mae gen i fin bokashi a dw i'n claddu fy ngwastraff fwyd yn y gwelyau.

Mae fy ngardd yn bwysig i mi achos dw i wedi llwyddo creu hafan gwerdd mewn ardal fricsen a tharmac i gyd. Rŵan mae pryfed ac adar lle doedd dim byd o'r blaen. Hefyd mae fy nghymdogion wedi dechrau garddio bellach, ac mae eu bachgen yn licio gweld beth dw i'n gwneud. Mae fy ngardd wedi rhoi pwrpas i mi.



# *Darn llysiau gorau* - **Mel a Steve Hill, Cymru**

Mae llwybr cerrig sarn, gyda thôn inddo, drey'r canol 'da ein darn llysiau. Mae pedwar ardal o gwympas y llwybr. Ar y chwith flaenm mae'r tatws yn tyfu. Mae'r letys a calendula yn tyfu rhyngddynt. Yn erbyn y wal, mae'r flocs.

Ar y chwith cefn, mae'r moron, letys a wynwynyn ac garlleg. Yn erbyn y wal, mae pys pêr ac blodau haul. Roedd yn arfer sbigoglys ar bwys y letys.

Ar y dde gefn, mae ŷd melys gyda swêd ac radis rhyngddynt.

Ar y dde flaen, mae ffa coch, ffa dringo, ffa llydan, cosmos ac perlysiau yn cynnwys sifys, sifys garlleg, balm lemwn, mintys ac ffenigl. O dan y ffenigl, mae pwll bach mewn twb hen hefyd.

Rhyng y ŷd melys a ffa coch, mae corbwmpen. Tu ôl y darn llysiau, mae ein ardd hwyaid, ar wahân i'r llysiau!



7/6/21



11/7/21

## *Y border bach orau* – **Natalie Sanders, Cymru**

Pan symudais i yma deg mis yn ôl oedd yr ardd cynfas gwag evo dim ond palmant a glaswellt. Dw i eriod wedi cael cymaint o le tu allan felly on i eisiau gwnaued y garau ohono. Dechreuais i yn yr Gwanwyn gan creu dau wely blodu yn yr ardd ffrynt, gnes i plannu potiau, blychau ffenestr a basgedi crog evo llawer o liw i roi croeso i bobl.
On i eisiau creu ardal fwy naturiol yn yr ardd gefn achos mae'r mynydd tu ôl i'r tŷ felly dw i wedi plannu cannoedd o hadau blodyn gwyllt ac i weld beth fydd yn tyfu, a hyn o bryd mae'n 'waith ar y gweill' a dw i'n gobeithio bod bydd yn gwella blwyddyn ar ôl blwyddyn. Dw i'n trio traulio cymaint o amser tu allan yn y ardd, yn gweithio, gwylio yr adar neu eistedd evo pannad a llyfr!




## *Yr ardd wyllt orau* - **Siaron James, Cymru**

Mae bron bob dim yn fy ngardd yn blodau gwylltion sy wedi'i hunan-hadu. Dwi'n cymryd bod rhai hadau 'di dod i mewn efo'r adar, a rhai falle efo fy nghi, ond sut bynnag nathon nhw cyrraedd, mae na croeso i bob un – dwi'n wrth fy modd efo nhw.

'Mond rhai wythnosau yn ôl, oedd na briallen, clychau'r gog, garlleg y geifr, a dant y llew i'w weld, ond mae nhw 'di mynd drosodd erbyn hyn. Ar hyn o bryd mae 'na bysedd y cŵn, pabi Cymreig, chwerwyn gwyn, triaglog, blodyn neidr, llin-y-llyffant porffor, y goesgoch, trwyn-y-llo-dail-eiddew, blodyn ymenyn, llaethysgallen, mapgoll, llyriad yr ais, mefusen wyllt, sawl glaswelltau a rhedyn… ac un neu ddau danhadlen boeth a thafolen! Bydd helyglys pêr ac helyglys dail gwlydd yn blodeuo cyn bo hir hefyd.

Petaswn i'n biau'r tŷ, byswn i'n ychwanegu pwll, plannu coeden, a newid y lawnt, ond mae'n dal plesur weld yr ardd yn wastad llawn o adar, gwenyn a phryfed hofran, ac mae na lwyth o trychfilod eraill, pili-palod a gwyfynod. Mae na faint a fynnid o falwod a gwlithod hefyd, ond gan fod dwi'm yn tyfu llysiau neu blodau drud, sdim ots mewn gwirionedd!






## *Cynhwysydd/pot orau* - **Sue Gerryts, Canada**

Mae'r gwr prenderfynnu tunnu blodau gwyllt a plenhygion am yr gwenyn yn yr hen trelar findais e yn yr tir.



## *Pot o berlysiau gorau* - **Sue Gerryts, Canada**

Dw i tufu berlysiau yn yr dec, wrth y gegin a y BBQ! Mae gyda fi mintys, cennin syfi, basil a parsli.



*Llysiau gorau* - Cydradd 1af **Jenny Fell, Cymru** a **Mel a Steve Hill, Cymru**

**Mel a Steve** (Bomio llun ganhwyaden!) **Jenny Fell**





*Blodyn y haul talaf* - **Rishi a Hari, Llundain**

144 centimetr



*Diolch yn fawr iawn  i :*

*Bawb sy wedi cystadlu,*

*Nia Llewelyn,*

*Ac enwedig i*

*Meinir Gwilym am farnu*

*a*

*Real Seeds https://www.realseeds.co.uk/ a*

*Mud and Bloom https://www.mudandbloom.com/*

*am ddarparu gwobrau*

*x*